

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r cyfarwyddyd)

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cyfarwyddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gyflawni'r gweithgareddau penodedig a restrir yn yr Atodlen erbyn y terfynau amser a bennir, mewn perthynas â'i ddyletswyddau mewn cysylltiad ag Ansawdd Aer o dan Ran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac fel rhan o gynllun 2017 y DU i ymdrin â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd. O dan adran 85(7) o'r Ddeddf honno mae dyletswydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwn oddi wrth Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

DEDDF YR AMGYLCHEDD 1995

Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Cydymffurfedd Nitrogen Deuocsid) 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 85(5) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(1), yn rhoi'r cyfarwyddyd a ganlyn.

Yn unol ag adran 85(6) caiff copi o'r cyfarwyddyd hwn ei gyhoeddi yn y London Gazette.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y cyfarwyddyd hwn ar ôl penderfynu ei fod yn angenrheidiol er mwyn bodloni rhwymedigaethau a osodir ar y Deyrnas Unedig o dan Gyfarwydddeb Ansawdd Aer Amgylchynol yr UE(2).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Cydymffurfedd Nitrogen Deuocsid) 2019.

(2) Daw'r cyfarwyddyd hwn i rym ar 01 Awst 2019.

(3) Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gymwys i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Dehongli

2. Yn y cyfarwyddyd hwn—

ystyr "awdurdod penodedig" yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

ystyr "gweithgareddau penodedig" yw'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr Atodlen.

Gofyniad i gymryd camau penodol

3. Rhaid i'r awdurdod penodedig gwblhau'r gweithgareddau penodedig erbyn y dyddiadau a bennir yn yr Atodlen.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dyddiad 31 Gorffennaf 2019



(1) 1995 p. 25. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 85(5) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(2) 2008/50/EC OJ Rhif L 152. 11.06.08. t.1.

Gweithgareddau Penodedig

<i>Gweithgaredd</i>	<i>Disgrifiad o'r gweithgaredd</i>	<i>Terfynau amser</i>
Gweithredu'r opsiwn a ffefrir	Gweithredu'r opsiwn dymchwel yn unol â'r amserlen a nodir yn y Cynllun Terfynol.	I gychwyn ar unwaith a heb oedi.
Dylid parhau i fodelu opsiwn Parth Aer Glân	Gwaith pellach i asesu potensial Parth Aer Glân yn well er mwyn cyrraedd cydymffurfedd o fewn y cyfnod byrraf posibl.	Cyn gynted â phosibl ac erbyn 29 Chwefror 2020 fan bellaf.
Dylid parhau i fodelu mesurau ategol	Gwaith pellach i asesu potensial mesurau ategol ynghyd â'r opsiwn a ffefrir i gynyddu'r sicrwydd y gellir cyflawni cydymffurfedd o fewn y cyfnod byrraf posibl.	Cyn gynted â phosibl ac erbyn 29 Chwefror 2020 fan bellaf.